IS-DDDEDDFWRIAETH CYMRU

**PRIFFYRDD, CYMRU**

**NOWC 2026 Rhif**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR I'R GORLLEWIN O YSGOL UWCHRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU TEILO SANT, LLANEDERN, CAERDYDD, CF23 9PD) 202-**

*Gwnaed* 202-

*Yn dod i rym* 202-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir i'r Gorllewin o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PD) 202- a daw i rym ar ***** 202-.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Caerdydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(**1**) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

**HIGHWAYS, WALES**

**NWSI 2026 No.**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND WEST OF ST TEILO'S CIW HIGH SCHOOL, LLANEDEYRN, CARDIFF, CF23 9PD) ORDER 202-**

*Made* 202-

*Coming into Force* 202-

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(**1**), make this Order**.**

**Title and Commencement**

**1.** The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Land West of St Teilo's CIW High School, Llanedeyrn, Cardiff, CF23 9PD) Order 202- and it comes into force on ***** 202-.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"the Council" ("*y Cyngor*") means Cardiff County Council;

"the deposited plan" ("*y plan a adneuwyd*") means the 2 Site Plans entitled "The Stopping Up of Highways (Land West of St Teilo's CIW High School, Llanedeyrn, Cardiff, CF23 9PD) Order 202-" with reference qA2343616 which accompanies this Order;

(**1**) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r ddau Blan Safle sy’n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir i’r Gorllewin o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PD) 202-” o dan y cyfeirnod qA2343616 sy’n dod gyda’r Gorchymyn hwn.

**Cau Priffyrdd**

**3.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 4 a 5 o’r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau’r priffyrdd er mwyn galluogi datblygiad yn unol â’r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 11 Chwefror 2025 o dan y cyfeirnod 24/01603/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**Y Darpariaethau sy’n Angenrheidiol neu’n Hwylus cyn Cau Priffyrdd**

**4.** Ni chaniateir cau’r darnau o briffyrdd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn—

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy’n dangos sut y mae’r darnau o briffyrdd i’w cau,

(b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu’r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau’r darnau o briffyrdd er mwyn i’r datblygiad fynd rhagddo, ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

**Ymgymerwyr Statudol**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau’r darnau o briffordd, bydd gan yr ymgymerwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â’r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau’r priffyrdd.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 202-

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted;

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

**Stopping Up**

**3.** Subject to articles 4 and 5 of this Order, the Welsh Ministers authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Order. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 11 February 2025 with reference 24/01603/FUL and described in Schedule 2 to this Order.

**Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up**

**4.** The lengths of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until—

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the lengths of highway are to be stopped up,

(b) the development described in Schedule 2 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the lengths of highway to allow the development to proceed, and

(c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

**Statutory Undertakers**

**5.** Where immediately before the lengths of highway are stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers then the undertakers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 202-

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**

**Y darnau o briffyrdd sydd i'w cau**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys troetffordd sy'n cydffinio â ffin ddwyreiniol y briffordd gyhoeddus a elwir Eastside Quarter, Llanedern, Caerdydd, sy'n 19 o fetrau yn y man hiraf, yn 3 metr yn y man lletaf, ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n cynnwys llwybr troed dienw, sy'n rhedeg drwy'r safle datblygu arfaethedig o Ffordd Gylchol y Dwyrain, Llanedern, Caerdydd, sy'n 15 metr yn y man hiraf, yn 3 metr yn y man lletaf, ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad**

Datblygu 53 o gartrefi cyngor, 9 o fflatiau byw â chefnogaeth, ailalinio'r llwybr troed, cynigion draenio cynaliadwy, gwaith plannu tirluniol gan gynnwys ecotôn, a gwaith cysylltiedig ar dir i'r gorllewin o Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant, Llanedern, Caerdydd, CF23 9PD.

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**SCHEDULE 1**

**Lengths of highway to be stopped up**

1. An irregular shaped length of highway comprising footway adjoining the eastern boundary of the public highway known as Eastside Quarter, Llanedeyrn, Cardiff, which is 19 metres at the longest point, 3 metres at the widest point, and marked with zebra hatching on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway comprising un-named foothpath, that runs through the proposed development site from Circle Way East Road, Llanedeyrn, Cardiff, which is 15 metres at the longest point, 3 metres at the widest point, and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**

**The Development**

Development of 53 council homes, 9 supported living apartments, re-alignment of footpath, sustainable drainage proposals, landscape planting including an ecotone, and associated works at land west of St Teilo's CIW High School, Llanedeyrn, Cardiff, CF23 9PD.